Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/apelio-yn-erbyn-penderfyniad-cynllunio

PCAC
PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# APÊL GYNLLUNIO

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 1590.

Mae'r ffurflen hon ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais cynllunio neu gais i ryddhau amodau, neu benderfyniad i ganiatáu cais yn ddarostyngedig i amodau yr ydych yn eu gwrthwynebu, neu yn erbyn methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi penderfyniad o fewn y cyfnod priodol, ac eithrio ceisiadau gan Ddeiliaid Tai (defnyddiwch ffurflen ar wahân).

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r ffurflen gywir ar gyfer y math o apêl rydych chi'n ei chyflwyno.**

**Ymwelwch â'n gwefan i gel arweiniad ar lenwi'r ffurflen hon.**

**RHYBUDD:** Mae'n rhaid i'ch apêl gyrraedd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) o fewn 6 mis o ddyddiad hysbysiad o benderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol. (**SYLWER:** Os na fyddwn yn derbyn unrhyw un o'r "Dogfennau ategol hanfodol" a restrir yn Adran I o fewn y cyfnod apelio, ni fydd yr apêl yn cael ei derbyn).

OS NAD YDYCH YN LLENWI'R FFURFLEN HON YN ELECTRONIG, YSGRIFENNWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU

**A. APELYDD –** Mae'n **rhaid** i enw'r unigolyn/unigolion sy'n gwneud yr apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y ffurflen gais. Os na, efallai na fydd yr apêl yn cael ei chofrestru.

| | |
|---|---|
| Enw /<br>Enw'r Sefydliad<br>(os yw'n berthnasol) | |

## B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw'r Sefydliad<br>(os yw'n berthnasol) | |

## C. AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL (ACLl)

| | |
|---|---|
| Enw'r ACLl | |
| Rhif cyfeirnod cais yr ACLl | |
| Dyddiad y ffurflen gais | |
| Dyddiad Hysbysiad o Benderfyniad yr ACLl (os yw wedi'i roi) | |

## CH. CYFEIRIAD SAFLE'R APÊL

Cyfeiriad

Cod post

Maint cyfan safle'r apêl (mewn hectarau)

Arwynebedd lle llawr y datblygiad arfaethedig (mewn metrau sgwâr)

A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle neu'n agos iddo y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? OES* ☐ NAC OES ☐

*Os oes, esboniwch yn eich datganiad achos llawn (adran F)

A allai'r Arolygydd weld rhannau perthnasol safle'r apêl yn ddigonol i farnu'r cynnig o dir cyhoeddus? GALL ☐ NI ALL ☐

A oes rhaid i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau eraill perthnasol? * Os 'OES', esboniwch isod. OES* ☐ NAC OES ☐

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol neu ariannol.

**SYLWER:** Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle'n ddigwmni, heb y naill barti neu'r llall, oni bai na ellir gweld y rhan berthnasol o'r safle o ffordd neu dir cyhoeddus arall, neu os yw'n hanfodol i'r Arolygydd fynd i mewn i'r safle i wirio mesuriadau neu ffeithiau perthnasol.

## D. DISGRIFIAD O'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Rhowch fanylion y datblygiad arfaethedig. Dylai'r rhain gael eu cymryd o'r ffurflen gais cynllunio, fel arfer, ond os diwygiwyd y cais tra oedd yn cael ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol, cewch roi disgrifiad o'r cynllun diwygiedig.
Amgaewch gopi o gytundeb yr ACLl i'r newid.
Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol neu ariannol.

| |
|---|
| |

| | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| A yw'r disgrifiad o'r datblygiad wedi newid ers i'r cais gael ei gyflwyno? | ☐ | ☐ |

| | YDW | NAC YDW |
|---|---|---|
| A ydych chi'n bwriadu cyflwyno rhwymedigaeth gynllunio (cytundeb adran 106 neu ymgymeriad unochrog) gyda'r apêl hon? | ☐ | ☐ |

## DD. Y RHESWM DROS YR APÊL

Mae'r apêl hon yn erbyn penderfyniad yr ACLl i:

Ticiwch yr un sy'n berthnasol

1. Wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig. ☐
2. Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad yn ddarostyngedig i amodau rydych chi'n eu gwrthwynebu. ☐
3. Gwrthod cymeradwyo'r materion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd cynllunio amlinellol. ☐
4. Cymeradwyo'r materion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd cynllunio amlinellol yn ddarostyngedig i amodau rydych chi'n eu gwrthwynebu. ☐
5. Gwrthod cymeradwyo unrhyw fater sy'n ofynnol gan amod ar ganiatâd cynllunio blaenorol (heblaw am y rheiny yn 3 neu 4 uchod). ☐
6. Methiant yr ACLl i roi ei benderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio o fewn y cyfnod priodol (8 wythnos fel arfer). ☐

---

## E. APELIADAU ERAILL

A oes unrhyw apeliadau eraill wedi'u penderfynu neu'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer y safle hwn neu dir cyfagos, er enghraifft yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio? OES* ☐ NAC OES ☐

* Os 'OES', rhowch fanylion, gan gynnwys ein rhif cyfeirnod os ydych yn ei wybod.
Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol neu ariannol.

---

**F. DATGANIAD ACHOS LLAWN**

Dyma'ch **unig** gyfle i gyflwyno'ch achos mewn cysylltiad â'r rheswm dros yr apêl fel y'i nodwyd yn adran Dd. Felly, rhowch eich datganiad achos **LLAWN**. Fel arall, gallwch gyflwyno'ch datganiad achos fel dogfen ar wahân ochr yn ochr â dogfennau eraill sy'n cefnogi eich apêl. I wneud hyn, bydd angen i chi fynd trwy'r rhesymau dros y penderfyniad (os ydynt wedi cael eu rhoi) ac esbonio pam rydych yn anghytuno a/neu pam rydych yn credu y dylai'r apêl gael ei chaniatáu. Dim ond y rhesymau ym mhenderfyniad yr ACLl a'r materion a ystyriwyd ganddo ar y cam ymgeisio y dylid eu cynnwys. Ni ddylech gyflwyno unrhyw faterion newydd nad oeddent gerbron yr ACLl yn ystod y cais. Cyfeiriwch at yr arweiniad ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.

Parhewch ar ddalen ar wahân, sef tudalen 6, os bydd angen

**F. DATGANIAD ACHOS LLAWN** (parhad)

**FF. GWEITHDREFN** (gweler yr arweiniad am ragor o wybodaeth)

Gall apeliadau yr ymdrinnir â nhw o dan Ran 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017 gael eu hystyried ar sail sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu achos cyfunol. Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017, bydd PCAC yn penderfynu ar y weithdrefn fwyaf priodol ac yn ei hadolygu drwy gydol y broses.

| | Ticiwch UN blwch yn unig |
|---|---|
| Rwyf o'r farn bod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol. | ☐ |
| Rwyf o'r farn bod y weithdrefn gwrandawiad yn briodol. | ☐ |
| Rwyf o'r farn bod y weithdrefn ymchwiliad yn briodol. | ☐ |

*Os ydych o'r farn bod angen gwrandawiad neu ymchwiliad, rhowch eich rhesymau llawn isod, gan gynnwys nifer y diwrnodau y credwch y bydd y digwyddiad yn debygol o bara a faint o dystion rydych yn bwriadu eu galw.
Sylwer mai PCAC fydd yn penderfynu p'un a fydd gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad yn digwydd.

---

**G. CAIS AM DDYFARNU COSTAU** (gweler yr arweiniad am ragor o wybodaeth)

| | YDY* | NAC YDY |
|---|---|---|
| A yw'r apêl yn cynnwys cais am gostau? | ☐ | ☐ |

* Os 'YDY', rhaid i chi gyflwyno datganiad isod sy'n esbonio'n glir pam rydych chi'n meddwl bod ymddygiad afresymol wedi digwydd a sut mae hyn wedi achosi treuliau diangen neu wastraffus.

## NG. MANYLION PERCHNOGAETH SAFLE’R APÊL (Rhan 1)

Mae angen i ni wybod pwy sy’n berchen ar safle’r apêl. Os nad ydych yn berchen ar safle’r apêl neu os ydych yn berchen ar ran ohono yn unig, mae angen i ni wybod enw(au) y perchennog/perchnogion neu’r perchennog/perchnogion rhannol. Mae hefyd angen i ni fod yn siŵr bod unrhyw berchennog arall yn gwybod eich bod wedi gwneud apêl.

MAE’N RHAID I CHI ROI TIC I DDANGOS PA UN O’R TYSTYSGRIFAU SY’N BERTHNASOL

Darllenwch y daflen ganllaw ‘Sut i lenwi’ch ffurflen apêl gynllunio’ os ydych yn ansicr.

Ticiwch UN blwch yn unig

**TYSTYSGRIF A** (Os chi yw unig berchennog y safle apêl cyfan, bydd tystysgrif A yn berthnasol)

Rwyf yn tystio, ar y diwrnod 21 diwrnod cyn dyddiad yr apêl hon, nad oedd neb heblaw am yr apelydd, yn berchen (gweler yr Arweiniad ar ein gwefan) ar unrhyw ran o’r tir y mae’r apêl yn ymwneud ag ef. ☐

**TYSTYSGRIF B**

Rwyf yn tystio bod yr apelydd (neu’r asiant) wedi rhoi’r hysbysiad gofynnol i bawb arall a oedd, ar y diwrnod 21 diwrnod cyn dyddiad yr apêl hon, yn berchen (gweler yr Arweiniad ar ein gwefan) ar unrhyw ran o’r tir y mae’r apêl yn ymwneud ag ef, fel y rhestrir isod: ☐

| Enw’r Perchennog | Y dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Rhowch gyfeiriad(au) y perchennog yn y manylion personol ar dudalen 13.

**TYSTYSGRIFAU C ac CH**

Os nad ydych yn gwybod pwy sy’n berchen ar y safle apêl cyfan neu ran ohono, cwblhewch naill ai Dystysgrif C neu Dystysgrif Ch yn Atodiad 1 ein canllaw a’i hatodi i’r ffurflen apêl. ☐

**H. MANYLION PERCHNOGAETH SAFLE'R APÊL** (Rhan 2) **TYSTYSGRIF DALIADAU AMAETHYDDOL**
(mae'n **rhaid** i hyn gael ei gwblhau ar gyfer pob apêl)

Mae'n rhaid i ni hefyd wybod p'un a yw safle'r apêl yn ffurfio rhan o ddaliad amaethyddol.

Ticiwch naill ai (a) neu (b).

**a** Nid oes unrhyw ran o'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn ddaliad amaethyddol nac yn rhan ohono ☐

**b(i)** Mae safle'r apêl yn ddaliad amaethyddol neu'n rhan ohono, a'r apelydd yw'r unig denant amaethyddol ☐

**b(ii)** Mae safle'r apêl yn ddaliad amaethyddol neu'n rhan ohono, ac mae'r apelydd (neu'r asiant) wedi rhoi'r hysbysiad gofynnol i bob unigolyn (heblaw am yr apelydd) a oedd, ar y diwrnod 21 diwrnod cyn dyddiad yr apêl, yn denant daliad amaethyddol ar y tir cyfan neu ran o'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef, fel y rhestrir isod: ☐

| Enw'r Tenant | Y dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Rhowch gyfeiriad(au) y Tenant yn y manylion personol ar dudalen 14.

## I. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

Mae'n rhaid i'r dogfennau a restrir yn 1–6 isod gael eu hanfon gyda'ch ffurflen apêl; mae'n rhaid i 7–12 gael eu hanfon hefyd, os yw'n briodol. Os na fyddwn yn derbyn eich holl ddogfennau apêl erbyn diwedd y cyfnod apelio 6 mis, ni fyddwn yn ymdrin â'ch apêl.

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych chi'n eu hamgáu

1 Copi o'r cais cynllunio gwreiddiol a anfonwyd at yr ACLl. ☐

2 Copi o'r dystysgrif perchnogaeth safle a'r manylion perchnogaeth a gyflwynwyd i'r ACLl ar y cam ymgeisio (mae hyn fel arfer yn rhan o ffurflen gais gynllunio'r ACLl). ☐

3 Copi o hysbysiad o benderfyniad yr ACLl (os cafodd ei roi). ☐

4 Cynllun safle (yn ddelfrydol ar gopi o fap Arolwg Ordnans wrth raddfa 10,000 o leiaf) sy'n dangos lleoliad cyffredinol y datblygiad arfaethedig a'i ffin. Dylai'r cynllun hwn hefyd ddangos dwy ffordd a enwyd er mwyn helpu i bennu lleoliad safle'r apêl. Dylai safle'r cais gael ei liwio'n goch neu ei ddangos gydag ymyl coch, a dylai unrhyw dir arall cyffiniol y mae'r apelydd yn berchen arno neu'n ei reoli (os oes tir o'r fath) gael ei liwio'n las neu ei ddangos gydag ymyl glas. ☐

5 Rhestr (sy'n nodi rhifau lluniadau) a chopïau o'r holl gynlluniau, lluniadau a dogfennau a anfonwyd at yr ACLl yn rhan o'r cais. Dylai'r cynlluniau a'r lluniadau ddangos yr holl ffiniau a marciau lliw a roddwyd ar y rhai a anfonwyd at yr ACLl. ☐

6 Rhestr (sy'n nodi rhifau lluniadau) a chopïau o unrhyw gynlluniau, lluniadau a dogfennau ychwanegol a anfonwyd at yr ACLl ond nad oeddent yn rhan o'r cais gwreiddiol (e.e. lluniadau at ddibenion enghreifftiol). ☐

7 Copi o'r Datganiad Dylunio a Mynediad (os yw'n ofynnol). ☐

8 Copi o'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd (os yw'n ofynnol). ☐

9 Cynlluniau, lluniadau neu ddogfennau ychwanegol sy'n ymwneud â'r cais ond na welwyd gan yr ACLl yn flaenorol. (Sylwer na all apelyddion amrywio cais o'r hyn a ystyriwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac eithrio cywiro gwallau lluniadu neu ddrafftio nad ydynt yn effeithio ar sylwedd y cais.) Rhifwch nhw'n glir a rhestrwch y rhifau isod: Peidiwch â chynnwys gwybodaeth bersonol neu ariannol. ☐

**I. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL** (parhad)

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych chi'n eu hamgáu

| | | |
|---|---|---|
| 10 | Yr holl ohebiaeth berthnasol â'r ACLl yn ymwneud â'r cais. | ☐ |
| 11 | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthodiad neu fethiant yr ACLl i gymeradwyo'r materion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd cynllunio amlinellol, amgaewch: | ☐ |
| | a. y cais amlinellol perthnasol; | ☐ |
| | b. yr holl gynlluniau a gymeradwywyd ar y cam cais amlinellol; | ☐ |
| | c. y caniatâd cynllunio amlinellol gwreiddiol. | ☐ |
| 12 | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthodiad neu fethiant yr ACLl i benderfynu ar gais sy'n ymwneud ag amod, mae'n rhaid i ni gael copi o'r caniatâd gwreiddiol gyda'r amod ynghlwm. | ☐ |
| 13 | Os yw'r apêl yn erbyn methiant yr ACLl i benderfynu ar gais, darparwch gopi o lythyr yr ACLl a oedd yn cofrestru eich cais. | ☐ |
| 14 | Copi o unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol ynghyd â thystysgrifau a hysbysiadau sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd (os anfonwyd un gyda'r cais, neu os oedd yn ofynnol gan yr ACLl). | ☐ |

## DATGANIAD AR Y CAIS

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apêl hon, datganiad achos llawn, ac unrhyw ddogfennau ategol na anfonwyd yn flaenorol fel rhan o'r cais (os na fyddwch yn gwneud hyn, ni fydd eich Apêl yn cael ei derbyn, fel arfer).

Rwyf yn cadarnhau bod yr holl adrannau wedi cael eu cwblhau'n llawn hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwyf yn deall y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gallai manylion gan gynnwys fy enw, y disgrifiad o'r safle a'm datganiad achos ymddangos ar-lein. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf yn cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn.

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

---

## ANFONWCH

1 COPI atom ni yn:

E-bost: PEDW.Casework@gov.wales
PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru

NEU

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Llinell gymorth: 0300 123 1590

1 COPI at yr ACLl

Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl a'r datganiad achos llawn at y cyfeiriad o ble yr anfonwyd yr hysbysiad o benderfyniad (neu at y cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd oddi wrth yr ACLl).

Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt eto, dim ond unrhyw ddogfennau ategol na anfonwyd yn flaenorol yn rhan o'r cais.

Cadwch gopi ar gyfer eich cofnodion

**Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth fydd yn digwydd nesaf.**

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad uchod neu drwy anfon neges e-bost at: PEDW.Casework@gov.wales / PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru

---

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain ar gael yn gyhoeddus)

**1. MANYLION PERSONOL YR APELYDD**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Dewis Iaith — Cymraeg ☐ Saesneg ☐

Cysylltwch â fi drwy — E-bost ☐ Post ☐

---

**2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT** (os oes un)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Dewis Iaith — Cymraeg ☐ Saesneg ☐

Cysylltwch â fi drwy — E-bost ☐ Post ☐

---

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain ar gael yn gyhoeddus) (parhad)

**3. MANYLION PERSONOL Y TENANT** (os yw'n berthnasol)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Dewis Iaith — Cymraeg ☐ Saesneg ☐

Cysylltwch â fi drwy — E-bost ☐ Post ☐

---

Mae'r data personol a gyflenwir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei gasglu a'i brosesu wedi hynny yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am y Polisi Diogelu Data ar gael yn https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

 © Hawlfraint y Goron 2024 WG48181 